

## Tasg 1

# Beth yn y byd yw *Erthygl 50*?

Ceisiwch ateb y cwestiynau canlynol i weld faint o'r wybodaeth rydych chi wedi ei deall.

1. Pwy fydd yn tanio Erthygl 50?
  - a) Senedd Ewrop
  - b) Senedd Prydain
  - c) Llywodraeth Prydain
  
2. Pryd fydd Erthygl 50, a'r broses o adael yr Undeb Ewropeaidd, yn cael ei thanio?
  - a) Mis Mawrth 2017
  - b) Mis Mawrth 2019
  - c) Mis Mawrth 2027
  
3. Ym mha ddinas y crëwyd y cytundeb rhyngwladol sy'n cynnwys Erthygl 50?
  - a) Madrid
  - b) Paris
  - c) Lisbon
  
4. Ym mha wlad mae Lisbon?
  - a) Sbaen
  - b) Yr Eidal
  - c) Portiwgal
  
5. Pa mor hir ydy'r broses o adael yn ei chymryd, yn ôl rheolau Erthygl 50?
  - a) 2 flynedd
  - b) 5 mlynedd
  - c) 10 mlynedd

Cewch ddefnyddio'r we er mwyn archwilio'r atebion.